
Adroddiad Blynyddol Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru 2014-15

Rheolwr Perthynas: Alun Jones
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Ffôn: 0300 062 8382

Diben

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r brif arolygiaeth annibynnol ar gyfer gofal iechyd yng Nghymru. Ei rôl yw darparu sicrwydd annibynnol a gwrthrychol ynglŷn ag ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd gwasanaethau gofal iechyd, gan wneud argymhellion i sefydliadau gofal iechyd er mwyn hyrwyddo gwelliannau.



Cynhyrchwyd yr adroddiad blynyddol hwn gan AGIC fel crynodeb o'r gweithgareddau a gyflawnwyd gan AGIC rhwng 1 Ebrill 2014 a 31 Mawrth 2015 yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro.

Y canlyniadau rydym yn ceisio dylanwadu arnynt o ganlyniad i'n gweithgareddau yn y bwrdd iechyd hwn a byrddau iechyd/ymddiriedolaethau eraill yw:

- Mae profiad dinasyddion o ofal iechyd yn gwella
- Mae dinasyddion yn gallu cael gwybodaeth glir ac amserol am ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru
- Mae dinasyddion yn hyderus bod gwaith arolygu a rheoleiddio'r sector gofal iechyd yng Nghymru yn ddigonol, yn gymesur, yn gydgysylltiedig, ac yn ychwanegu gwerth

Trosolwg

Yn ystod 2014/15, gwnaeth rhaglen arolygu AGIC ganolbwyntio ar gael cwmpas eang ar draws y GIG, yn ôl math o leoliad ac arbenigedd. Yn ystod y flwyddyn, mae AGIC wedi cynnal 30 o ymweliadau â lleoliadau ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, a oedd yn cynnwys deg o arolygiadau urddas a gofal hanfodol, 13 o arolygiadau deintyddol, pedwar arolygiad o feddygon teulu, a thri ymweliad Deddf Iechyd Meddwl. Mae AGIC hefyd wedi cynnal dau archwiliad marwolaeth yn y ddalfa.

Yn y sector annibynnol, mae AGIC wedi cynnal 33 o ymweliadau ag ardal Caerdydd a'r Fro; mae'r rhain yn cynnwys pedwar arolygiad o ysbytai aciwt, tri arolygiad Deddf Iechyd Meddwl, pedwar arolygiad o hosbisau oedolion, pedwar arolygiad o glinigau annibynnol, un arolygiad o glinig colli pwysau, un arolygiad o wasanaeth terfynu beichiogrwydd, 13 o arolygiadau o glinigau laser, tri ymweliad Deddf Iechyd Meddwl (naw ward).

Themâu Allweddol

Gwelwyd y themâu allweddol canlynol yn ystod ein harolygiadau urddas a gofal hanfodol yn 2014/15.

- Adborth cadarnhaol gan gleifion; cynhelir urddas a phreifatrwydd y cleifion drwy eu hannog i ddod yn annibynnol eto
- Yn gyffredinol, mae'r staffio ar wardiau mewn ysbytai cyffredinol wedi bod yn briodol i ddiwallu'r anghenion a gyflwynir gan y cleifion
- Agwedd cadarnhaol ac ymroddiad y staff
- Gwelwyd gwaith tîm amlddisgyblaethol da yn ystod yr arolygiadau yn Rookwood, Canolfan Orthopedig Caerdydd a'r Fro, ac Ysbyty Athrofaol Cymru (B1)
- Ymddengys fod asesu a rheoli briwiau pwysu yn effeithiol
- Caiff poen ei asesu a'i reoli'n dda
- Caiff anghenion hydradu ac anghenion maethol y cleifion eu diwallu, ond mae lle i wella o ran cofnodi
- Dull anghyson y staff o gwblhau'r dogfennau gofal ac asesu risg a ddefnyddir ar wardiau ysbytai Er bod gwaith arsylwi yn ystod arolygiadau urddas a gofal hanfodol wedi dangos ymyriadau gofal rheolaidd gan y staff, nid oedd dogfennau gofal ysgrifenedig bob amser yn ategu hyn
- Mae angen i'r staff ar rai wardiau gael rhagor o hyfforddiant ynghylch y mater penodol o ymdrin â chleifion sydd wedi drysu neu sydd â dementia
- Problemau ar rai wardiau hŷn yn ymwneud â'r amgylchedd a gwaith cynnal a chadw ar y cyfleusterau.

Gwnaethom hefyd gynnal tri ymweliad Deddf Iechyd Meddwl i Ysbyty'r Eglwys Newydd, wardiau Dwyrain 3, Dwyrain 5A a Gorllewin 3. Roedd y canfyddiadau allweddol fel a ganlyn:

- Nid yw amgylchedd ffisegol Ysbyty'r Eglwys Newydd yn cyd-fynd â'r hyn a ystyrir yn amgylchedd seiciatrig modern i gleifion mewnol, ond nodir bod cyfleuster yn cael ei adeiladu o'r newydd yn Ysbyty Llandochau. Gwnaed cryn dipyn o ymdrech i uwchraddio a/neu ailwampio'r wardiau yn Ysbyty'r Eglwys Newydd i safon resymol er mwyn darparu i'r grŵp cleifion, cyn belled ag y bo modd, amgylchedd mwy cyfforddus a llai sefydliadedig

- Nodwyd nifer o broblemau cynnal a chadw yn ystod ein harolygiadau, ac mae cynlluniau gweithredu'r bwrdd iechyd yn mynd i'r afael â'r rhain
- Drwy gydol ein harolygiadau, canfuom fod yr holl staff y gwnaethom gwrdd â nhw yn broffesiynol, yn barod eu cymwynas, yn ofalgar ac yn gwybod llawer am eu grŵp cleifion. Roedd y cynlluniau gofal a thriniaeth a adolygwyd yn dangos tystiolaeth o gyfraniadau amlddisgyblaethol ac amlasiantaethol. Roedd y rhain yn dangos asesiadau, ymyriadau a gofal a oedd yn seiliedig ar dystiolaeth, a safonau'r arferion yn unol â'r meini prawf a amlinellir ym Mesur Iechyd Meddwl (Cymru).

Gellir tynnu'r themâu canlynol o'n rhaglen o arolygiadau deintyddol a ddarparwyd yn ystod 2014-15:

- Lefel uchel iawn o foddhad ar safon y gofal a ddarperir ymysg y cleifion
- Caiff y cleifion eu trin ag urddas a pharch, ac yn gyffredinol maent yn cymryd rhan mewn trafodaethau am eu gofal ac yn derbyn digon o wybodaeth am eu triniaeth
- Caiff y gwaith o ddarparu gofal a thriniaeth ddeintyddol yn brydlon ei ategu gan amrywiaeth o systemau a phrosesau rheoli sefydledig
- Gwelsom amgylcheddau glân, cyfforddus, priodol a hylan a oedd yn hygyrch i bobl mewn cadair olwyn yn y rhan fwyaf o'r practisau
- Roedd gan nifer o bractisau ystafelloedd dadheintio neilltuedig ar wahân, yn unol ag arferion gorau
- Roedd lle i wella'r prosesau dadheintio mewn rhai practisau, e.e. sicrhau bod gwiriadau dyddiol yn cael eu gwneud i sicrhau bod offer sterileiddio'n gweithio'n effeithiol
- Mae angen i hanesion meddygol newydd a diwygiedig gael eu llofnodi gan y deintydd a'r claf
- Mae angen gwella o ran y canllawiau a'r cyngor a roddir i gleifion sydd am gwyno. Mewn llawer o achosion, roedd angen diweddarau'r dogfennau a'r prosesau er mwyn iddynt fod yn gyson â threfniadau *Gweithio i Wella*.

Arferion Nodedig

Nodwyd arferion nodedig yn ystod ein harolygiadau, gan gynnwys uwchsgilio'r Addysgwr Arferion i ddarparu hyfforddiant gorfodol drwy sesiynau tîm (Ward B1, Ysbyty Athrofaol Cymru).

Llywodraethu ac Atebolrwydd

Gwnaeth yr hunanasesiad a gynhaliwyd ac a gyflwynwyd gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ar gyfer 2014-15 nodi bod y sefydliad wedi datblygu cynllun busnes tymor canolig integredig, a bod hwn wedi cael cymeradwyaeth. Mae'r bwrdd yn monitro cynnydd yn erbyn cynlluniau gwella drwy ei bwyllgorau, ac mae tystiolaeth o gynnwys y staff yn y prosiectau i wella. Ymddengys bod y bwrdd yn hyrwyddo diwylliant agored sy'n canolbwyntio ar ansawdd, ond ei fod yn cydnabod bod angen gwneud rhagor mewn rhai meysydd, gan gynnwys ymgorffori dysgu sefydliadol.

Ymgysylltu

Yn ystod 2014/15, gwnaeth prif weithredwr AGIC, Kate Chamberlain, ynghyd â'r rheolwr perthynas, Alun Jones, gwrdd â phrif weithredwr a chadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro. Roedd yr ymweliadau hyn, a gynhaliwyd ym mis Hydref (prif weithredwr) a mis Tachwedd (cadeirydd), yn rhan o raglen o gyfarfodydd cyswllt a oedd yn rhoi cyfle i AGIC godi unrhyw bryderon â'r byrddau iechyd, i drafod rhaglenni gwaith yn y dyfodol, ac i gasglu adborth ar unrhyw broblemau yn ymwneud â'r ffordd y mae AGIC yn gwneud ei waith.

Adolygiadau ac Ymchwiliadau Arbennig

Yn ystod 2014-15, cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) ddau adolygiad dynladdiad yn ymwneud â chleifion a gafodd triniaeth o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro. Mae manylion yr adolygiadau hyn wedi eu crynhoi isod:

Mewn achos Nathaniel John, a wnaeth ymosod ar Stephen Rees tra bod y ddau ohonynt yn byw mewn hostel dan reolaeth Mind Caerdydd, tynnodd AGIC sylw at ddiffygion o ran cyfathrebu rhwng asiantaethau. Canfu AGIC hefyd y collwyd cyfleoedd i wneud diagnosis o Mr John a'i roi mewn cyswllt â gwasanaethau iechyd meddwl, a bod diffygion o ran yr atgyfeiriad at dîm iechyd meddwl cymunedol Links yng Nghaerdydd. Gwnaeth y ffaith nad oedd unrhyw broses neu ddull systematig o hwyluso'r gwaith o rannu gwybodaeth hanfodol rhwng gwasanaethau a sefydliadau arwain at beidio â rhannu gwybodaeth bwysig am symptomau Mr John â gwasanaethau iechyd meddwl. Gallai'r wybodaeth hon fod wedi dylanwadu ar unrhyw benderfyniadau ynglŷn â gofal a thriniaeth. Er bod risg y gallai Mr John fod yn dreisgar, daeth AGIC at y casgliad nad oedd modd rhagweld y byddai'n llofruddio rhywun. Yn benodol, nid oedd modd rhagweld y byddai'n llofruddio Stephen Rees, oherwydd nodwyd bod ganddo berthynas ardderchog ag ef.

Yn achos Mathew Tvrdon, a oedd yn gyfrifol am ddigwyddiad y 'gyrrwr fan' yng Nghaerdydd ym mis Hydref 2012. Yn drist, canlyniad y digwyddiad oedd y bu farw

menyw 32 oed, a chafodd 20 o bobl eraill eu hanafu. Gwnaeth AGIC gynnal adolygiad o'r ddarpariaeth ofal ar ôl yr atgyfeiriad cyntaf i wasanaethau iechyd meddwl yn 2003. Awgrymodd canfyddiadau'r adolygiad nad oedd modd rhagweld y llofruddiad, ac o ystyried yr amgylchiadau, roedd yn anodd gweld sut y gellid bod wedi ei osgoi. Fodd bynnag, tynnodd yr adolygiad sylw at nifer o faterion yn ymwneud â'r gofal a ddarperid, a oedd yn cynnwys diffygion cyfundrefnol a systemig yn y tîm iechyd meddwl cymunedol a oedd yn gyfrifol am Mr Tvrdon, diffyg cyfathrebu rhwng y tîm hwnnw a'r meddyg teulu, a phryderon ynghylch y trefniadau ar gyfer cynllunio i ryddhau.

Ymweliadau Dilynol a Sicrwydd ar Unwaith

Ymweliadau Dilynol

Cyhoeddodd AGIC adroddiad yn dilyn pob arolygiad, ac roedd pob adroddiad yn cynnwys cynllun sy'n gwneud argymhellion ar gyfer gwella. Ym mhob achos, cyflwynodd y bwrdd iechyd neu'r practisau gynlluniau gwella prydlon yn nodi eu hymatebion i'r argymhellion ynddynt. Cafodd pob ymateb ei werthuso'n unigol, a gwelwyd eu bod yn darparu sicrwydd digonol i AGIC. Roedd hyn oherwydd bod y gwelliannau a nodwyd naill ai wedi cael sylw a/neu fod tystiolaeth i ddangos bod cynnydd yn cael ei wneud mewn ymateb i'r argymhellion.

Bydd AGIC yn parhau i fonitro'r cynnydd a wneir gan y bwrdd iechyd neu'r practisau wrth fynd i'r afael ag unrhyw argymhellion a wnaed o ganlyniad i'w weithgarwch arolygu. Os na fydd camau gweithredu o fewn cynlluniau gwella wedi derbyn sylw a/neu ar waith, disgwylir hefyd i'r bwrdd iechyd neu'r practis roi diweddariadau i AGIC i'w hysbysu pan fydd y materion hyn wedi cael sylw.

Cynhaliodd AGIC dri ymweliad dilynol yn 2014-15. Roedd pob un o'r rhain yn Ysbyty Athrofaol Cymru, ar wardiau A6, B6 a B7. Roedd pob un o'r tri arolygiad yn rhoi sicrwydd bod y bwrdd iechyd wedi ymdrin â'r materion a nodwyd yn yr arolygiadau blaenorol, neu ei fod wedi gwneud cynnydd sylweddol yn hynny o beth.

Sicrwydd ar unwaith

Cyflwynodd AGIC ddau lythyr sicrwydd ar unwaith yn dilyn arolygiadau urddas a gofal hanfodol.

Mewn perthynas â Ward B6 (Ysbyty Athrofaol Cymru), ysgrifennodd AGIC at y bwrdd iechyd ynglŷn â'r canlynol:

- Roedd darpariaeth yr hanfodion gofal yn amrywio
- Oedi cyn ymateb i glychau galw'r cleifion
- Arweinyddiaeth a chyfathrebu ar y ward

- Trefnu'r staff ar y ward
- Nid yw'r hysbysfyrddau i'r cleifion yn gyfredol ac nid ydynt yn cyd-fynd â chofnodion eraill
- Tystiolaeth ddogfennol heb ei chwblhau
- Pa mor weladwy yw'r staff mewn rhai mannau ar y ward.

Ynghylch Ward A4, ysgrifennodd AGIC at y bwrdd iechyd er mwyn:

- cael sicrwydd bod claf yn cael ei amddifadu o'i ryddid yn gyfreithlon, a bod gweithdrefnau'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid priodol wedi cael eu dilyn
- gofyn am welliant ar unwaith i amgylchedd y gegin, oherwydd gwelsom nifer o broblemau yn ymwneud ag iechyd, diogelwch a hylendid.

Gwnaeth y bwrdd iechyd ymateb yn adeiladol i'r ddau lythyr sicrwydd ar unwaith, gan gymryd camau pendant i fynd i'r afael â'r problemau a nodwyd.

Gweithgarwch Arolygu

Gwasanaeth Iechyd Gwladol

Math o Arolygiad	Lleoliad	Dyddiad
Arolygiadau Urddas a Gofal Hanfodol	Ysbyty Athrofaol Cymru	11/06/2014
	Rookwood	19/06/2014
	Llandochoau	01/07/2014
	Ysbyty Athrofaol Cymru	22/07/2014
	Ysbyty'r Barri	05/08/2014
	Ysbyty Athrofaol Cymru	21/10/2014
	Llandochoau	11/11/2014
Arolygiadau Urddas a Gofal Hanfodol – Arolygiadau Dilydol	Dilydol – Ysbyty Athrofaol Cymru	16/04/2014
	Dilydol – Ysbyty Athrofaol Cymru	29/04/2014
	Dilydol – Ysbyty Athrofaol Cymru	20/01/2015
Arolygiadau Meddygon Teulu (blwyddyn beilot – nid yw'r adroddiadau arolygu'n cael eu cyhoeddi)	Meddygfa Caerau Lane	30/09/2014
	Canolfan Feddygol Gogledd Caerdydd	09/10/2014
	Meddygfa Heol Albert	14/10/2014
	Practis Grŵp Eryl	09/12/2014
Arolygiadau deintyddol	Canolfan Ddeintyddol VIP	01/09/2014
	Practis Deintyddol Six Gables	29/10/2014
	Deintyddfa Llaneirwg	05/11/2014
	Deintyddfa Rumney Hill	20/11/2014
	Practis Deintyddol Tongwynlais	28/01/2015
	Deintyddfa Thornhill Road	10/02/2015
	Clinig Deintyddol Hickman House	18/02/2015
	Deintyddfa Holton	25/02/2015
	Practis Deintyddol Ffordd Churchill	05/03/2015
	Alison Jones Dental	12/03/2015
	Gofal Deintyddol Treganna	17/03/2015
	Deintyddfa Heol Charles	19/03/2015
	Practis Deintyddol Wyndham House	25/03/2015
Deddf Iechyd Meddwl	Ysbyty'r Eglwys Newydd	06/11/2014
	Ysbyty'r Eglwys Newydd	03/02/2015
	Ysbyty'r Eglwys Newydd	04/02/2015
Archwiliad – Marwolaeth yn y ddalfa	Archwiliad – Marwolaeth yn y ddalfa (VV)	07/04/2014
	Archwiliad – Marwolaeth yn y ddalfa (DT)	08/05/2014

Gofal Iechyd Annibynnol

Math o Arolygiad	Lleoliad	Dyddiad
Acíwt	Ysbyty Vale	22/04/2014
	Ysbyty Bae Caerdydd	23/04/2014
	Ysbyty Bae Caerdydd	08/05/2014
	Ysbyty Vale	09/05/2014
Ymweliadau Deddf Iechyd Meddwl	Tŷ Catrin	06/05/2014
	Pinetree Court	09/12/2014
	Dilynol – Tŷ Catrin	04/03/2015
Uned Iechyd Meddwl	Tŷ Catrin	06/05/2014
	Pinetree Court	09/12/2014
	Dilynol – Tŷ Catrin	04/03/2015
Hosbis – Oedolion	Marie Curie – Holme Towers	03/04/2014
	Dilynol – Marie Curie – Holme Towers	09/05/2014
	Dilynol – Marie Curie – Holme Towers	21/05/2014
	Dilynol – Marie Curie – Holme Towers	22/05/2014
Clinig Annibynnol	Practis Cyffredinol Annibynnol	23/04/2014
	Practis Cyffredinol Annibynnol	29/04/2014
	Canolfan Ddiagnostig Caerdydd	03/06/2014
	Clinig Pengliniau Caerdydd	03/06/2014
Laser	Cellite	02/05/2014
	Cellite	07/05/2014
	Clinig Ultralase	21/05/2014
	Grŵp Meddygol Harley	04/06/2014
	Visible Changes	04/06/2014
	Clinig Laser Hickman House	11/06/2014
	Grŵp Meddygol Harley	11/06/2014
	Clear Skin Dermatology Treatment Clinic	17/06/2014
	Skin Deep	18/06/2014
	Clinig Biothecare Estetika	18/06/2014
	Body Image	18/06/2014
	Blush Hair and Beauty	18/06/2014
	Stiwdio Croen Refresh	19/06/2014
Clinig Colli Pwysau	National Slimming Clinic	04/06/2014
UCHAF	BPAS Caerdydd	22/05/2014

Dyddiad cynhyrchu: Gorffennaf 2015